YSGOL BRYNREFAIL

CRICED

Ar ddiwrnod olaf mis Mehefin, a hithau'n brynhawn hyfryd o Haf, teithiodd tîm criced Ysgol Brynrefail I faes criced Mochdre, ger Bae Colwyn, i chwarae yn erbyn Ysgol Eirias yn ail rownd Cwpan Eryri ar ôl trechu Ysgol Creuddyn yn y rownd gyntaf.

Eirias enillodd y tafliad a phenderfynu batio mewn gem 20 pelawd.Er bowlio ffyrnig a maesu dygn daeth y rhediadau'n gyson ac fe wnaeth eu seren Shreyas 67 o rediadau allan o gyfanswm o 185-5. Cymerodd Gethin Jones a Michael Allman dwy wiced yr un.

Yn eu saith pelawd gyntaf fe fethodd Eirias a chael yr un wiced ond ni sgoriodd Brynrefail yn gyson chwaith ond yr oedd pob batiwr yn gwneud ei orau glas dros y tîm. Ein prif sgoriwr oedd Gethin Jones gyda 16 rhediad allan o gyfanswm o 61-7. Nid colli'r gêm ddaru ni - rhedeg allan o belawdau i sgorio rhediadau oedd yr hanes !

Hogai ni – da 'de